


WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Gwynedd

Cyhoeddwyd: Ebrill 2014
Cyfeirnod y ddogfen: 133A2014

# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth, a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi'r Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Ar y cyd ag archwilwyr penodedig, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau o werth am arian yng nghyswllt llywodraeth leol ac yn asesu'r graddau y cydymffurfir â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Nod yr Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu adroddiadau cymesur, sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd, ynghylch y modd y caiff adnoddau cyhoeddus eu gwarchod, ac wrth wneud hynny, meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliannau.

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Huw Lloyd Jones a Nigel Griffiths o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 6

Mae cynnydd da wedi'i wneud i gyflawni nifer o flaenoriaethau'r Cyngor ond mae angen rhagor o welliannau mewn rhai gwasanaethau allweddol 7

Mae newidiadau diweddar i drefniadau llywodraethu'r Cyngor yn debygol o atgyfnerthu ei allu i werthuso a gwella gwasanaethau 16

Roedd cynlluniau i gefnogi gwelliannau i wasanaethau'r Cyngor yn gadarn ar y cyfan ond byddent yn elwa ar wybodaeth am berfformiad sy'n well o ran ei hamrywiaeth, ansawdd a chyflwyniad 20

Mae'r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15 23

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 24

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am Wynedd a Chyngor Gwynedd 25

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol 26

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Gwynedd 28

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar waith yr arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, ac ar waith a wnaed ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gan staff Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r adroddiad yn ymdrin â threfniadau Cyngor Gwynedd (y Cyngor) i ddarparu a gwerthuso ei wasanaethau yn 2012-13, ei waith i gynllunio gwelliant yn 2013-14 a, chan ystyried y rhain, daw i gasgliad o ran pa un a yw'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn y bydd y Cyngor yn gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

2 Nodwyd gennym fod cynnydd da wedi'i wneud yn 2012-13 i gyflawni nifer o flaenoriaethau'r Cyngor ond bod angen rhagor o welliannau mewn rhai gwasanaethau allweddol. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- roedd perfformiad amryw o wasanaethau'r Cyngor yn cymharu'n dda ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru ;
- mae mwyafrif trigolion Gwynedd o'r farn i'r Cyngor ddarparu gwasanaethau o ansawdd a oedd yn cynnig gwerth am arian;
- mae'r cymorth a roddir i bobl sy'n agored i niwed wedi gwella mewn rhai meysydd, ond cymysg oedd y perfformiad o ran gwasanaethau oedolion, plant a digartrefedd;
- roedd perfformiad ar draws ysgolion cynradd Gwynedd yn ddigonol yn 2012 ond roedd gormod o ysgolion uwchradd yn tanberfformio;
- mae cynnydd da wedi'i wneud mewn amrywiaeth o fentrau sy'n ceisio cynyddu'r cyflenwad o dai addas yn y Sir;
- mae cynnydd da wedi'i wneud i hyrwyddo a chyflawni prosiectau er mwyn gwella'r economi leol a gosod y sylfeini ar gyfer amrywiaeth eang o fentrau yn y dyfodol; ac
- mae mentrau i hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y Sir yn parhau.

3 Gwnaethom nodi hefyd fod newidiadau diweddar i drefniadau llywodraethu'r Cyngor yn debygol o atgyfnerthu ei allu i werthuso a gwella gwasanaethau. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae'r camau i sefydlu'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu a gweithredu rhaglen Ffordd Gwynedd yn debygol o helpu i werthuso perfformiad a gwneud gwelliannau i wasanaethau;
- mae'r trefniadau i fonitro perfformiad gwasanaethau wedi gwella ond mae angen atgyfnerthu rhai agweddau ar fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor;
- mae trefniadau craffu diwygiedig wedi helpu aelodau i ganolbwyntio ar effeithiau polisïau'r Cyngor ar bobl Gwynedd;

- mae'r Cyngor wedi cyflawni'r dyletswyddau adrodd ar welliant sy'n ofynnol o dan y Mesur ond gallai gydymffurfio'n llawnach ag arweiniad gan Lywodraeth Cymru; a

- chydymffurfiodd y Cyngor â gofynion adrodd ariannol ond gallai atgyfnerthu ei reolaethau ariannol ymhellach.

4 Yn olaf, nodwyd bod cynlluniau i gefnogi gwelliannau i wasanaethau'r Cyngor yn 2013-14 yn gadarn ar y cyfan ond y byddent yn elwa ar wybodaeth am berfformiad sy'n well o ran ei hamrywiaeth, ansawdd a chyflwyniad. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- roedd Cynllun Gwella 2013-14 a'r amcanion gwella yn bodloni gofynion y Mesur;

- mae'r diffyg cysondeb o ran amrywiaeth, ansawdd a chyflwyniad y wybodaeth am berfformiad a geir yng Nghynllun Gwella 2013-14 yn ei gwneud hi'n anodd pennu graddau'r gwelliannau i wasanaethau y mae'r Cyngor am eu gwneud; ac

- er gwaethaf heriau sylweddol a pharhaus, mae'r Cyngor yn dal i reoli ei sefyllfa ariannol yn dda.

5 Gan ystyried yr uchod, mae'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

6 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur.

7 Gyda chymorth gan arolygiaethau yng Nghymru, Estyn (ar gyfer addysg), Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Chomisiynydd y Gymraeg, rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae Cyngor Gwynedd (y Cyngor) yn ceisio ei gyflawni, sut mae'n gwneud hynny, a'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu ar hunanasesiad y Cyngor o'i drefniadau llywodraethu a'i berfformiad. Yn olaf, gan ystyried hyn oll, daw'r adroddiad i gasgliad o ran pa un a yw'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

8 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau llywodraethu neu wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni a oedd yn cynnwys asesiad o gynnydd y Cyngor yn erbyn dau o'i amcanion gwella:

- Yr economi - bydd yr economi leol yn ffynnu, bydd cyfleoedd teg i bawb fod yn rhan o'r byd gwaith a bydd Gwynedd yn lle cyffrous i fyw ynddo gyda chymunedau egnïol; a'r
- Amgylchedd a Seilwaith - bydd cyflenwad o dai addas yn y Sir.

9 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella - os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

10 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

# Mae cynnydd da wedi'i wneud i gyflawni nifer o flaenoriaethau'r Cyngor ond mae angen rhagor o welliannau mewn rhai gwasanaethau allweddol

## Roedd perfformiad amryw o wasanaethau'r Cyngor yn cymharu'n dda ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru

11 Yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol yn 2013, daethpwyd i'r casgliad fod llawer o feysydd o wasanaethau'r Cyngor - fel y'u mesurwyd yn erbyn ei ddangosyddion allweddol a'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSC) - yn perfformio'n dda. Mae hyn yn wir o hyd. Roedd perfformiad y Cyngor yn 2012-13 wedi gwella neu wedi aros yn ddigyfnewid yn achos 71.9 y cant (2011-12 = 71.4 y cant) o'r dangosyddion gyda 66.7 y cant (2011-12 = 65.8 y cant) yn well na chyfartaledd Cymru.

12 Hefyd, dangosodd Adroddiad Llywodraeth Cymru ar Berfformiad Gwasanaethau Awdurdodau Lleol, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014, i'r Cyngor berfformio'n dda mewn nifer o feysydd yn 2012-13. O gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, roedd perfformiad y Cyngor yn y chwartel uchaf neu'r chwartel canol yn achos 17 o'r 18 o ddangosyddion yn yr Adroddiad. Roedd perfformiad yn well na chyfartaledd Cymru mewn 50 y cant o'r dangosyddion.

## Mae mwyafrif trigolion Gwynedd o'r farn i'r Cyngor ddarparu gwasanaethau o ansawdd a oedd yn cynnig gwerth am arian

13 Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal arolwg cenedlaethol er mwyn cael barn pobl Cymru ar faterion amrywiol, gan gynnwys iechyd, addysg a gwasanaethau lleol. Dangosodd arolwg 2012-13 fod 57 y cant o drigolion Gwynedd yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd. Mae hyn yn cyd-fynd â chyfartaledd yr awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.

14 Ategwyd canlyniadau'r arolwg cenedlaethol gan safbwyntiau Panel Dinasyddion Gwynedd wrth i 57 y cant ddweud eu bod yn fodlon iawn a 27 y cant ddweud eu bod yn fodlon â'r modd yr oedd y Cyngor wedi darparu ei wasanaethau yn 2012-13. Yn ogystal, roedd 51 y cant o'r Panel Dinasyddion yn fodlon iawn a 28 y cant yn fodlon bod y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn cynnig gwerth am arian.

## Mae'r cymorth a roddir i bobl sy'n agored i niwed wedi gwella mewn rhai meysydd, ond cymysg oedd y perfformiad o ran gwasanaethau oedolion, plant a digartrefedd

15 Yn ei gwerthusiad o wasanaethau gofal cymdeithasol yn 2012-13, daeth AGGCC i'r casgliad mai cymysg oedd perfformiad y Cyngor ar y cyfan. Er y gwelwyd gwelliant mewn rhai meysydd, gan gynnwys rheoli atgyfeiriadau plant, mae angen rhoi sylw o hyd i feysydd eraill, fel cynnal arolygiadau amserol o blant sy'n derbyn gofal. Daeth AGGCC i'r casgliad hefyd nad oedd y Cyngor wedi gwneud gwelliannau mewn nifer o feysydd pwysig o ran perfformiad a chomisiynu a oedd yn angenrheidiol er mwyn gwella ansawdd a sicrhau cynaliadwyedd yn y dyfodol.

16 Yng ngwerthusiad AGGCC o berfformiad yn 2011-12, nodwyd bod rhoi cynlluniau comisiynu ar waith yn amserol ar gyfer gwasanaethau pobl hŷn ac anableddau dysgu yn faes i'w wella. Er y bu cynnydd

mewn rhai meysydd yn 2012-13, nid yw'r Cyngor wedi cyflawni ei gynlluniau'n gyson. Mae perygl y gallai oedi parhaus cyn moderneiddio gwasanaethau oedolion arwain at wasanaethau anghynaliadwy o ansawdd gwael yn y dyfodol.

17 Mae'r Cyngor yn dal i redeg nifer fawr o wasanaethau preswyl i bobl hŷn a fydd yn gynyddol anos i'w cynnal yn y tymor hir. Cynyddodd nifer y bobl hŷn (65 neu drosodd) sy'n cael cymorth mewn cartrefi gofal o 601 ar 31 Mawrth 2012 i 625 ar 31 Mawrth 2013. Mae'r gyfradd o bobl hŷn sy'n cael cymorth gan y Cyngor mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth 2013 yn dal i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru a hon oedd y gyfradd uchaf ond un o blith holl awdurdodau lleol Cymru. Mae'r Cyngor wrthi'n datblygu cynlluniau i leihau nifer y gwelyau preswyl yn ei gartrefi gofal.

18 Bu gostyngiad bach yn nifer y bobl hŷn a oedd yn cael cymorth yn y gymuned gan y Cyngor o 1,200 ar 31 Mawrth 2012 i 1,178 ar 31 Mawrth 2013. Mae'r gyfradd o bobl hŷn sy'n cael cymorth yn y gymuned gan y Cyngor fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth 2013 yn dal i fod yn llawer is na chyfartaledd Cymru a hon oedd y gyfradd isaf ond un o blith holl awdurdodau lleol Cymru.

19 Er bod angen datblygu gwasanaethau cymorth yn y gymuned i bobl hŷn a'r rhai ag anableddau dysgu o hyd, rhoddodd y Cyngor nifer o brosiectau ar waith yn ystod y flwyddyn gan gynnwys:

- datblygu cyfleuster gofal ychwanegol yn ardal Bangor mewn partneriaeth â Tai Gogledd Cymru a fydd, ar ôl ei gwblhau, yn darparu 55 o welyau ychwanegol ar gyfer pobl hŷn;
- agor uned â chwe gwely ym Mhenygroes er mwyn cynorthwyo pobl hŷn y mae angen cymorth dwys arnynt; a
- sefydlu gwasanaeth gofal dydd ym Mhlas Hedd ar gyfer cleifion â dementia mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

20 Roedd mynediad da at wasanaethau gofal cymdeithasol gyda chefnogaeth dda gan dîm cynghori ac asesu effeithiol. Roedd perfformiad y Cyngor o ran adolygu cynlluniau gofal oedolion wedi parhau i wella ac roedd yn agos i gyfartaledd Cymru. Gallai gofalwyr gael gafael ar gymorth yn hawdd. Sefydlodd y Cyngor swyddfa i ofalwyr yn Ysbyty Gwynedd yn 2012-13. Roedd trefniadau gweithredol cadarn ar waith i amddiffyn oedolion a oedd yn agored i niwed. Mae'r Cyngor yn dal wrthi'n sefydlu bwrdd diogelu oedolion ar y cyd â Chyngor Sir Ynys Môn.

21 Daeth adroddiad gan Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru ar ansawdd gwasanaethau addysg y Cyngor i blant a phobl ifanc, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2013, i'r casgliad bod gan y Cyngor drefniadau priodol i sicrhau bod gweithdrefnau diogelu cadarn ar waith mewn ysgolion. Fodd bynnag, nid oedd dealltwriaeth glir o weithdrefnau i sicrhau bod dealltwriaeth glir o rolau a chyfrifoldebau amddiffyn a diogelu plant yn bodoli ar lefel gorfforaethol na rhwng adrannau. O ganlyniad, daeth Estyn i'r casgliad nad oedd trefniadau diogelu plant a phobl ifanc y Cyngor yn bodloni'r gofynion statudol a'u bod yn peri gofid. Mae Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ac AGGCC

wrthi'n ailedrych ar y maes hwn a byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau yn ystod ein cylch nesaf o waith asesu gwelliant.

22 Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn darparu nifer o wasanaethau effeithiol i gynorthwyo plant a'u teuluoedd. Roedd perfformiad wedi gwella mewn nifer o feysydd yn 2012-13, gan gynnwys amseroldeb asesiadau cychwynnol a chraidd o anghenion plant a mwy o atgyfeiriadau at weithwyr cymdeithasol.

23 Roedd perfformiad y Cyngor o ran darparu gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal yn dameidiog. Roedd nifer y plant a oedd yn derbyn gofal gan y Cyngor wedi parhau i gynyddu yn 2012-13. Roedd gwasanaethau maethu a phreswyl yn dda ond mae angen gwneud mwy i werthuso profiadau plant sy'n derbyn gofal o'r gwasanaethau a gânt. Roedd lefelau presenoldeb yn yr ysgol a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yn dda ac roedd y Cyngor yn cadw mewn cysylltiad yn effeithiol â phlant a oedd wedi derbyn gofal ganddo yn y gorffennol. Roedd amseroldeb cynadleddau amddiffyn plant, y nodwyd ei fod yn faes i'w ddatblygu gan AGGCC yn 2011-12, wedi gwella yn ystod 2012-13.

24 Fodd bynnag, gwelwyd rhagor o ddirywiad yn amseroldeb cynlluniau addysg ac archwiliadau meddygol i blant sy'n derbyn gofal, ac erys y rhain yn flaenoriaethau i'w gwella o hyd. Roedd amseroldeb adolygiadau o blant sy'n derbyn gofal wedi gwaethygu yn 2012-13 er i AGGCC dynnu sylw ato fel maes i'w ddatblygu. Mae perfformiad y Cyngor yn y maes hwn bellach ymhlith y gwaethaf yng Nghymru.

## Roedd perfformiad ar draws ysgolion cynradd Gwynedd yn ddigonol yn 2012 ond roedd gormod o ysgolion uwchradd yn tanberfformio

25 Daeth yr adroddiad gan Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru, y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 21, i'r casgliad, ar raddfa bedwar pwynt (ardderchog, da, digonol ac anfoddhaol), fod perfformiad y Cyngor o ran ei wasanaethau addysg i blant a phobl ifanc yn ddigonol.

26 Gwynedd oedd â'r bedwaredd gyfradd isaf o ddysgwyr a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng Nghymru yn 2012. Pan ystyrir y lefelau isel hyn o amddifadedd, roedd ysgolion cynradd yn perfformio'n ddigonol. Fodd bynnag, ac yn seiliedig ar ganlyniadau 2012, roedd gormod o ysgolion uwchradd yn tanberfformio yng nghyfnod allweddol 4 (16 oed).

27 Roedd perfformiad yng nghyfnod allweddol 2 (11 oed) ychydig yn well na chyfartaledd Cymru yn 2012. Roedd canran y disgyblion a oedd yn cyflawni'r dangosydd pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn uwch na chyfartaledd Cymru, ond nid oedd digon o ddysgwyr yn cyrraedd y lefelau uwch. O gymharu ag ysgolion mewn rhannau eraill o Gymru â lefelau tebyg o amddifadedd, roedd ysgolion yn perfformio'n ddigonol yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2.

28 Yng nghyfnod allweddol 3 (14 oed), Gwynedd oedd â'r ganran uchaf o ddisgyblion a oedd yn cyflawni'r dangosydd pynciau craidd. Fodd bynnag, nid oedd perfformiad yn y rhan fwyaf o ddangosyddion ar ddiwedd cyfnod allweddol

4 wedi gwella cymaint ag yng ngweddill Cymru yn 2012. O gymharu ag ysgolion tebyg ledled Cymru, roedd perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 yn dda, gyda hanner yr ysgolion uwchradd yn y chwarter uchaf a dim un yn y chwarter isaf. Fodd bynnag, roedd gormod o ysgolion yn y chwarter isaf yn y rhan fwyaf o'r prif ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4. Dyma fu'r sefyllfa dros y pedair blynedd diwethaf.

29 Yn 2012 nid adawodd unrhyw ddysgwyr yng Ngwynedd yr ysgol heb unrhyw gymwysterau cydnabyddedig. Dyma'r perfformiad gorau yng Nghymru. Yn 2012 roedd y bwlch mewn perfformiad rhwng disgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol yng nghyfnodau allweddol 2, 3 a 4. Yn gyffredinol, roedd grwpiau penodol o ddysgwyr, gan gynnwys grwpiau agored i niwed a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cyrraedd eu lefelau disgwyliedig neu lefelau uwch.

30 Mae'r Cyngor wedi cyflwyno prawf darllen ar gyfer pob ysgol. Dangosodd y profion hyn fod dysgwyr yn perfformio ychydig yn well yn Gymraeg na Saesneg ac nad oedd bechgyn a dysgwyr a oedd yn cael prydau ysgol am ddim yn perfformio cystal ag eraill. Ar ddiwedd eu haddysg gynradd, roedd gan dri chwarter y dysgwyr lefel weithredol o lythrennedd. Roedd hyn yn debyg i'r cyfartaledd o gymharu ag awdurdodau eraill.

31 Roedd nifer yr ymgeiswyr ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf yn uchel o gymharu ag awdurdodau eraill. Roedd dilyniant da rhwng cyfnodau allweddol mewn Cymraeg iaith gyntaf ac roedd hwyr-ddyfodiaid i addysg Gymraeg yn gwneud cynnydd da iawn ar ôl cael darpariaeth ddwys fyrdymor. Roedd safonau da i'w gweld ar draws cyfnodau allweddol ac roedd canran y dysgwyr a oedd yn cyrraedd y lefelau uwch yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 yn uwch na chyfartaledd Cymru. Roedd llawer o ddisgyblion yn llwyddo i gael gradd A*-C mewn TGAU Cymraeg iaith gyntaf ar ddiwedd cyfnod allweddol 4. Roedd llawer o bobl ifanc a oedd yn cael cymorth gan y gwasanaeth ieuenctid wedi sicrhau cyrhaeddiad da mewn amrywiaeth eang o gymwysterau nad oeddent yn ffurfiol.

32 Roedd dysgwyr yn cymryd rhan dda mewn amrywiaeth o weithgareddau a oedd yn helpu i wella eu lles. Roedd plant a phobl ifanc yn datblygu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd meithrin agweddau iach a diogel drwy amrywiaeth o brosiectau. Roedd lefelau cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn rhaglenni datblygu chwaraeon cenedlaethol ymhlith yr uchaf yng Nghymru ym mhob mesur.

33 Roedd lefelau presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd yn dda ac yn cymharu'n dda ag awdurdodau tebyg ledled Cymru, ac roedd traean yr ysgolion yn y chwarter uchaf. Fodd bynnag, yn 2011/12, roedd lefelau presenoldeb yn hanner yr ysgolion uwchradd yn y chwarter isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae pedair ysgol wedi bod yn y chwarter isaf dros y pedair blynedd diwethaf ac un dros y tair blynedd diwethaf. Mae Estyn wedi nodi bod hyn yn wendid mawr. Roedd lefelau presenoldeb plant a oedd yn agored i niwed yn gyson dda.

34 Mae cyfradd y gwaharddiadau parhaol mewn ysgolion uwchradd wedi bod yn gostwng dros y tair blynedd diwethaf ond

bu cynnydd sylweddol yn 2011/12. Mae gwaharddiadau cyfnod penodol o bum niwrnod neu lai ymhlith yr isaf yng Nghymru ac mae gwaharddiadau o chwe diwrnod neu fwy yn is na chyfartaledd Cymru.

35 Yn 2012, roedd canran y rhai a adawodd ym Mlwyddyn 11 nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn is na chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, bu'r gostyngiad dros y pedair blynedd diwethaf yn arafach na chyfartaledd Cymru. Gwelwyd cynnydd sylweddol yng nghanran y bobl ifanc a oedd wedi aros mewn addysg ôl-16 amser llawn yn 2012 ac roedd yn uwch na chyfartaledd Cymru.

36 Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth glir o'i gryfderau a meysydd i'w datblygu o ran ei wasanaethau i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, ac mae wedi gwneud sawl newid pwysig dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn cynnwys cau'r unedau i ddisgyblion ag anawsterau dysgu cyffredinol a datblygu tîm o athrawon arbenigol sy'n helpu disgyblion mewn ysgolion prif ffrwd. O ganlyniad i'r newid hwn, mae mwy o ddisgyblion nawr yn cael cymorth arbenigol a gall disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol fynd i'w hysgolion lleol. Mae canran y datganiadau a gaiff eu cwblhau o fewn amserlenni statudol yn gyson uchel. Mae nifer yr apeliadau i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru dros y tair blynedd diwethaf wedi bod yn isel.

37 Mae nifer a chyfran y lleoedd gwag yn ysgolion cynradd ac uwchradd Gwynedd ymhlith yr uchaf yng Nghymru o hyd. Mae'r sefyllfa wedi gwaethygu dros y blynyddoedd diwethaf a rhagwelir y bydd niferoedd disgyblion uwchradd yn lleihau ymhellach. Araf fu'r newidiadau i fynd i'r afael â lleoedd gwag a than yn ddiweddar, nid yw'r Cyngor wedi rhoi digon o flaenoriaeth i ad-drefnu ysgolion.

38 Fodd bynnag, ers arolygiad diwethaf Estyn yn 2009, mae'r Cyngor wedi dechrau mynd i'r afael â'r mater hwn yn fwy trylwyr a gwneud penderfyniadau anodd i ad-drefnu lleoedd mewn ysgolion. Mae swyddogion wedi datblygu dull cynhwysfawr i werthuso digonolrwydd ysgolion y Sir a llywio opsiynau i ad-drefnu'r ddarpariaeth yn y dyfodol. Mae'r fframwaith hwn yn nodi mai gwella safonau fydd un o'r meini prawf allweddol wrth ystyried ad-drefnu ysgolion ac mae wedi cael ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor. Mae Rhaglen Band A Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif y Cyngor, sydd wedi'i chymeradwyo, yn cynnwys prosiectau ad-drefnu a buddsoddi. Mae'r rhaglen yn cynnwys gwybodaeth a data da am gyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgolion, sy'n galluogi'r Cyngor i flaenoriaethu buddsoddiad cyfalaf yn briodol.

39 Roedd digon o leoedd meithrin ar gael ar draws y Sir, mewn ysgolion ac mewn lleoliadau nas cynhelir a oedd wedi'u comisiynu, ac roedd y ddarpariaeth yn cael ei monitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod mynediad i bawb. Roedd ansawdd y ddarpariaeth yn dda ar y cyfan. Roedd y Cyngor yn gwerthuso safon y ddarpariaeth yn dda ym mhob lleoliad meithrin, yn rhoi cymorth i staff ac yn delio ar unwaith ag achosion o danberfformio. Roedd adnodd Gwynedd Ni yn cynnig ystod dda o wybodaeth i rieni, gofalwyr a theuluoedd.

## Mae cynnydd da wedi'i wneud mewn amrywiaeth o fentrau sy'n ceisio cynyddu'r cyflenwad o dai addas yn y Sir

40 Y Cyngor yw partner arweiniol Partneriaeth Tai Gwynedd, sef cynghrair strategol o randdeiliaid sydd hefyd yn cynnwys pedair cymdeithas dai ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Un o nodau Partneriaeth Tai Gwynedd yw cynyddu'r cyflenwad o dai addas drwy ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael mor effeithiol â phosibl ac ymateb i'r galw lleol am dai. Yn ystod 2012-13, cynyddodd Partneriaeth Tai Gwynedd y cyflenwad o dai fforddiadwy, lleihaodd nifer y tai gwag ac aeth i'r afael â thlodi tanwydd drwy wella effeithlonrwydd ynni'r stoc dai.

41 Cynyddodd nifer y cartrefi fforddiadwy a grëwyd yn ystod y flwyddyn o 63 yn 2011-12 i 77 yn 2012-13. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys cartrefi a adeiladwyd o'r newydd a chartrefi fforddiadwy a ddarparwyd o ganlyniad i fentrau eraill fel Cynllun Cymorth Prynu Gwynedd. Hefyd, llwyddwyd i lenwi 48 o dai gwag yn y sector preifat drwy gyfuniad o gymhellion gan y Cyngor a chamau gorfodi. Dyma'r nifer a gyflawnwyd yn 2011-12 hefyd.

42 Llwyddodd Partneriaeth Tai Gwynedd i leihau dibyniaeth rhai cartrefi ar danwyddau ffosil. Bodlonwyd holl amserlenni blynyddol y Cynllun Ôl-troed Carbon Tai a rhagorwyd ar y targedau ar gyfer rhoi cyngor ar ynni a gosodiadau ynni adnewyddadwy. Derbyniodd dros 600 o gartrefi gyngor ar sut i arbed ynni a/neu fesurau arbed ynni drwy'r cynllun Yma i Helpu (a ddaeth i ben yn 2013) a gosodwyd 265 o ddyfeisiau ynni adnewyddadwy. Bydd nifer o drigolion yn ardaloedd Carmel a'r Fron yn cael budd o fesurau effeithlonrwydd ynni pellach dros y ddwy flynedd nesaf.

43 Yn 2010, trosglwyddodd y Cyngor ei stoc o bron 6,300 o gartrefi i landlord cymdeithasol cofrestredig, sef Cartrefi Cymunedol Gwynedd, sy'n gyfrifol am sicrhau bod y cartrefi hyn yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) erbyn 2020. Ar ddiwedd 2012-13, roedd 614 o'r bron 6,300 o gartrefi yn cydymffurfio'n llawn â Safon Ansawdd Tai Cymru. Yn ôl Cartrefi Cymunedol Gwynedd, mae cyfran sylweddol o'r cartrefi eraill eisoes yn cydymffurfio'n rhannol ac mae'n disgwyl y bydd ei stoc dai i gyd yn cydymffurfio'n llawn erbyn diwedd 2015.

44 Mae gwaith i atal digartrefedd wedi'i gysylltu'n agos ag ymdrechion i gynyddu'r cyflenwad o dai addas, er enghraifft, drwy greu tenantiaethau fforddiadwy yn y sector preifat. Roedd canran yr aelwydydd a allai fod yn ddigartref, y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref am o leiaf chwe mis wedi gwella'n sylweddol o 66 y cant yn 2011-12 i 92 y cant yn 2012-13. Ar ôl dwy flynedd pan welwyd perfformiad yn dirywio, mae hyn yn debycach i'r hyn a gyflawnwyd yn flaenorol gan y Cyngor. Fodd bynnag, roedd nifer gyfartalog y diwrnodau gwaith o'r adeg pan fydd aelwydydd yn dod yn ddigartref a'r adeg pan fydd y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau i aelwydydd y canfuir eu bod yn statudol ddigartref, wedi dirywio o 143 o ddiwrnodau yn 2011-12 i 161 o ddiwrnodau yn 2012-13. Mae Cynllun Strategol 2013-17 y Cyngor yn cydnabod yr effaith a gaiff tlodi ac amddifadedd yn y Sir ar nifer y bobl ddigartref. Mae rhaglenni gwaith 2013-14 yn cynnwys amrywiaeth o fentrau sy'n ceisio mynd i'r afael â digartrefedd a'i achosion sylfaenol.

## Mae cynnydd da wedi'i wneud i hyrwyddo a chyflawni prosiectau sy'n gwella'r economi leol a gosod y sylfeini ar gyfer amrywiaeth eang o fentrau yn y dyfodol

45 Yn ystod 2012-13, parhaodd y Cyngor i chwarae rhan weithgar yng ngweithgareddau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mae pob un o'r chwe chyngor yn y Gogledd wedi cael cyfrifoldeb am ddatblygu blaenoriaethau'r Bwrdd. Mae Cyngor Gwynedd yn arwain mentrau i helpu busnesau yn y Gogledd i ennill cyfran uwch o gontractau lleol a rhanbarthol yn y sector cyhoeddus.

46 Rhoddodd y Cyngor ystod o brosiectau ar waith yn ystod y flwyddyn a oedd yn helpu busnesau ac unigolion lleol ac yn hyrwyddo'r Sir fel lle llewyrchus i fyw a gweithio ynddo. Cynlluniwyd y prosiectau er mwyn annog busnesau i ddatblygu, tyfu a chreu swyddi a helpu pobl leol i feithrin y sgiliau a'r rhinweddau sydd eu hangen ar fusnesau lleol.

47 Roedd y cymorth a ddarparwyd i fusnesau lleol yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Eu helpu i fanteisio'n well ar gyfleoedd yn y sectorau carbon isel ac ynni adnewyddadwy. Mae'n rhy gynnar i fesur effaith y cymorth a ddarparwyd - ond mae'r Cyngor a'i bartneriaid o'r farn bod y gost a'r ymdrech sy'n gysylltiedig â chomisiynu astudiaethau a chodi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd masnachol yn y sector hwn yn fuddsoddiad effeithiol yn nyfodol y Sir.
- Helpu 124 o fusnesau lleol i gystadlu'n fwy effeithiol am gontractau lleol a rhanbarthol ar gyfer cynlluniau cyfalaf mawr fel bod budd ariannol y cynlluniau hyn a'u cadwyni cyflenwi yn cael ei gadw yn yr economi leol. Yn ôl y Cyngor, mae'r gweithdai tendro a gynhaliwyd fel rhan o'r prosiect hwn eisoes wedi bod yn fuddiol gyda 37 o'r cyfranogwyr yn ennill contractau gwerth dros gyfanswm o £27 miliwn ar ôl eu mynychu. Helpodd hyn i ddiogelu 130 o swyddi a chreu 40 o swyddi newydd.
- Nodi 43 o fusnesau lleol sydd ag uchelgais i dyfu a darparu rhaglenni cymorth wedi'u teilwra i'w hanghenion unigol.
- Datblygu cyfleusterau a rhwydweithiau technoleg gwybodaeth y Sir er mwyn cysylltu trigolion a busnesau â darparwyr gwasanaethau. Darparwyd tua 40 o leoliadau Wi-Fi newydd o fewn adeiladau'r Cyngor a dechreuodd gwaith i ddatblygu canolfan i ddiwydiannau creadigol lleol.

48 Canolbwyntiodd y cymorth a ddarparwyd i unigolion ar helpu pobl - yn enwedig rhieni sengl a phobl ifanc sy'n wynebu risg o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant - i oresgyn y rhwystrau at waith a chynyddu nifer y cyfleoedd prentisiaeth yn y Sir. Cyflawnodd y Cyngor rai llwyddiannau nodedig yn ystod y flwyddyn gan gynnwys y canlynol:

- rhoddwyd cymorth i 679 o bobl ifanc a oedd yn wynebu risg o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant - o gymharu â tharged o 271;

- mynychodd 106 o bobl ifanc - ddwywaith yn fwy na'r targed - ddigwyddiad i hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth yn y sector hamdden;
- cafodd 18 o bobl ifanc brentisiaethau yn y sectorau adeiladu a pheirianneg; a
- rhoddwyd cynllun cenedlaethol ar waith yn lleol i ddarparu gofal plant a chymorth i geiswyr gwaith er mwyn eu galluogi i fynychu cyrsiau hyfforddi a chyfweliadau a thrwy hynny, helpwyd 32 o bobl i ddod o hyd i swyddi a 57 i symud ymlaen i addysg bellach.

49 Canolbwyntiodd y gweithgareddau a gynhaliwyd yn 2012-13 i hyrwyddo'r Sir fel lle llewyrchus i fyw a gweithio ynddo ar ddenu digwyddiadau mawr i Wynedd ac adfywio canol trefi. Ymhlith y cyflawniadau roedd y canlynol:

- cynnal wyth digwyddiad proffil uchel a ddarparodd waith neu gonsesiynau i 137 o fusnesau lleol a chynhyrchu £5 miliwn o incwm ychwanegol i'r economi leol;
- cynnal astudiaeth o allu manwerthu er mwyn helpu i gynllunio a datblygu canol trefi yn y dyfodol; a
- chytuno ar fentrau ar gyfer siopau gwag mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

50 Er bod y mentrau hyn a rhai eraill wedi helpu i wneud Gwynedd yn lle llewyrchus i fyw a gweithio ynddo, mae'r Cyngor yn dal i wynebu heriau mawr o ran ei ymdrechion i gryfhau'r economi leol. Dangosodd arolwg o fusnesau lleol yn 2013 mai dim ond 19 y cant o ymatebwyr a deimlai fod y Sir yn fan 'lle roedd pethau'n digwydd' ac ni theimlai dros 80 y cant fod Gwynedd yn 'lle cyffrous gyda chymunedau llewyrchus'.

## Mae mentrau i hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y Sir yn parhau

51 Crëwyd rôl Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Disgwylir y bydd pwerau newydd i osod safonau ar sefydliadau yn dod i rym drwy is-ddeddfwriaeth erbyn diwedd 2014. Tan hynny, bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg drwy rinwedd pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

52 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda holl gynghorau Cymru i arolygu'r modd y caiff cynlluniau iaith eu gweithredu a rhoi cyngor iddynt ynglŷn â hynny. Mae cyfrifoldeb ar gynghorau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob cyngor wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro; yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach yn ôl yr angen.

53 Daeth adolygiad diweddaraf y Comisiynydd i'r casgliad fod y Cyngor wedi llwyddo i ganfod faint o staff nad oedd ganddynt sgiliau iaith Gymraeg ac wedi cymryd camau i'w helpu i wella eu sgiliau. Parhaodd y Cyngor i gynnig amrywiaeth da o gyrsiau iaith Gymraeg ac roedd yn awyddus i ychwanegu at y ddarpariaeth hon drwy ddatblygu rhaglen e-ddysgu newydd. Roedd nifer o gamau wedi'u cymryd i ddarparu gofal cwsmeriaid drwy gyfrwng y Gymraeg ac roedd cynnydd wedi'i wneud â chynllun hyrwyddwyr iaith y canolfannau hamdden. Cymerodd y Cyngor ran hefyd mewn cynllun i dreialu'r rhaglen dangosyddion iaith yn y gweithle a gyflwynwyd gan Gydbwyllgor Addysg Cymru er mwyn hwyluso'r broses o fesur sgiliau iaith y gweithlu.

# Mae newidiadau diweddar i drefniadau llywodraethu'r Cyngor yn debygol o atgyfnerthu ei allu i werthuso a gwella gwasanaethau

## Mae'r camau i sefydlu'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu a gweithredu rhaglen Ffordd Gwynedd yn debygol o helpu i werthuso perfformiad a gwneud gwelliannau i wasanaethau

54 Cafodd Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu, yn cynnwys Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pennaeth yr Adran Democratiaeth a Chyfreithiol, yr Uwch Reolwr Cyflwyno a Chefnogi Newid, yr Uwch Reolwr Comisiynu Corfforaethol a'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg, ei sefydlu yn ystod 2013. Nod y Grŵp yw cynnal trosolwg parhaus a mwy disgybledig o faterion llywodraethu, codi ymwybyddiaeth ohonynt ac annog gwell perchenogaeth o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Gallai'r Grŵp hwn hyrwyddo gwelliannau i ansawdd a manwl gywirdeb hunanwerthusiadau o elfennau amrywiol o fframwaith llywodraethu'r Cyngor yn y dyfodol, gan gynnwys yr asesiad blynyddol o berfformiad.

55 Mae'r arwyddion cynnar yn addawol. Mae rhaglen waith y Grŵp yn cynnwys rhai o elfennnau fframwaith llywodraethu'r Cyngor - megis effeithiolrwydd y broses asesu perfformiad a gwaith y pwyllgorau craffu - y cynigiwyd y dylid eu hadolygu yn fy Llythyr Asesiad Gwella ym mis Medi 2013.

56 Mae'r Cyngor hefyd wedi datblygu rhaglen weddnewidiol fawr - Ffordd Gwynedd - i wella diwylliant y sefydliad a'i ffordd o weithio. Prif amcan Ffordd Gwynedd yw rhoi pobl Gwynedd wrth wraidd popeth y mae'r Cyngor yn ei wneud. Er mwyn gwneud hyn, mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar y canlynol:

- staff - gweithredu'n fwy hyblyg i ddiwallu anghenion cwsmeriaid;
- rheolwyr - grymuso staff i ddiwallu anghenion cwsmeriaid;
- trefniadau cyflogaeth - atgyfnerthu ffyrdd o ymddwyn sy'n rhoi pobl Gwynedd wrth wraidd yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud;
- arweinyddiaeth - hyrwyddo camau i fabwysiadu egwyddorion 'Ffordd Gwynedd' ym mhob rhan o'r Cyngor;
- llywodraethu - seilio penderfyniadau ar dystiolaeth o'u heffaith ar bobl Gwynedd;
- trefniadau ymgysylltu - gwneud pethau sy'n bwysig i bobl Gwynedd a blaenoriaethu adnoddau yn unol â hynny;
- prosesau darparu gwasanaethau - creu gwerth i'r cwsmer;
- polisïau - ei gwneud hi'n haws diwallu anghenion pobl; a
- fframwaith perfformiad - mesur p'un a yw'r Cyngor yn diwallu anghenion pobl Gwynedd ac yn darparu gwerth am arian.

57 Caiff y gwaith o ddatblygu a gweithredu Ffordd Gwynedd ei oruchwylio gan Banel Gweddnewid sy'n cynnwys Cyfarwyddwr Corfforaethol, dau aelod o'r Cabinet a Rheolwr y Rhaglen. Mae'r rhaglen yn cynnwys nifer o brosiectau. Y prif brosiect trosfwaol yw Rhaglen Ddatblygu Ffordd Gwynedd sy'n cynnwys cyfres o weithdai i reolwyr a staff ar ofynion ac arferion Ffordd Gwynedd. Mae disgwyl i'r gweithdai ddechrau yn gynnar yn 2014-15.

58 Er mai dim ond newydd ddechrau mae prosiect Ffordd Gwynedd, mae'r arwyddion cynnar yn addawol. Mae'r prosiectau yn y rhaglen wedi'u diffinio'n dda a gallent atgyfnerthu trefniadau llywodraethu'r Cyngor a gwella'r gwasanaethau y mae'n eu darparu.

59 Fodd bynnag, mae'n bwysig bod gwaith y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu a rhaglen Ffordd Gwynedd yn cael ei gydygysylltu'n effeithiol. Mae'r ffaith bod yr un Cyfarwyddwr Corfforaethol wedi'i benodi i arwain y Grŵp Asesu Trefniadau Corfforaethol a Rhaglen Ddatblygu Ffordd Gwynedd yn gam gadarnhaol tuag at sicrhau bod prosiectau ategol yn cael eu rhoi ar waith.

## Mae trefniadau i fonitro perfformiad gwasanaethau wedi gwella ond mae angen atgyfnerthu rhai agweddau ar fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor

60 Fel rhan o'r gwaith a wnaethom eleni gyda rhai o Dimau Rheoli Adrannol a Phaneli Cyflawni'r Cyngor, nodwyd bod nifer o welliannau wedi'u gwneud yn ddiweddar i drefniadau monitro perfformiad. Fodd bynnag, erys rhai problemau gan gynnwys pryderon a fynegwyd gan swyddogion ac aelodau bod Timau Rheoli Adrannol, Paneli Cyflawni a'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet Anffurfiol yn dyblygu gwaith monitro perfformiad mewn rhai meysydd.

61 Mae Panel Gweddnewid Ffordd Gwynedd wedi nodi bod fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor yn un o'r meysydd i'w gwella y bydd yn rhoi blaenoriaeth iddynt ac mae cyfres o weithdai i reolwyr a staff wedi dechrau'n ddiweddar. Mae'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu hefyd wedi cynnwys trefniadau'r Cyngor i herio perfformiad yn ei raglen adolygu. Mae'n bwysig bod y gweithdai a'r adolygiadau yn sicrhau bod diffiniadau a dealltwriaeth glir o rolau a chyfrifoldebau'r holl grwpiau ac adrannau amrywiol sy'n gysylltiedig â'r broses rheoli perfformiad, gan gynnwys yr Adran Strategol a Gwella. Dylai hyn helpu i osgoi unrhyw ddyblygu a sicrhau proses glir a rhesymegol i asesu perfformiad, ei herio ac adrodd arno.

62 Rydym yn cefnogi'r gwaith cynnar ar y fframwaith rheoli perfformiad ac, yn enwedig, elfennau her y broses. Daeth adroddiad Estyn, y cyfeiriwyd ato yn gynharach yn yr adroddiad hwn, i'r casgliad nad oedd y trefniadau i herio perfformiad ysgolion yn ddigon cadarn ac nad oeddent wedi cael digon o effaith ar wella canlyniadau. Hefyd, nododd gwerthusiad AGGCC o wasanaethau gofal cymdeithasol y cyfeiriwyd ato'n gynharach, er bod archwiliadau ac asesiadau mewnol beirniadol ac adeiladol yn cael eu cynnal o fewn gwasanaethau plant, prin oedd y dystiolaeth i ddangos bod yr un peth yn digwydd o fewn gwasanaethau oedolion.

## Mae trefniadau craffu diwygiedig wedi helpu aelodau i ganolbwyntio ar effeithiau polisïau'r Cyngor ar bobl Gwynedd

63 Un newid a wnaed i drefniadau llywodraethu'r Cyngor, yn dilyn etholiad mis Mai 2012, oedd sefydlu tri phwyllgor craffu newydd. Prif rôl y pwyllgorau yw gwerthuso effeithiolrwydd polisïau a chynlluniau'r Cyngor wrth wella gwasanaethau a chanlyniadau trigolion Gwynedd. Cafodd tri adroddiad eu cwblhau a'u cyflwyno i'r pwyllgor craffu priodol yn 2012-13:

- y defnydd o ddulliau meddwl drwy systemau yn adrannau'r Cyngor;
- darparu tai fforddiadwy yn y Sir; ac
- ansawdd addysg yn y Sir.

64 Ar y cyfan, mae'r pwyllgorau craffu wedi ymateb yn dda i'w rôl newydd. Mae dau o'r adroddiadau - tai fforddiadwy ac ansawdd addysg - wedi dangos lefel gadarn o waith dadansoddi o ran perfformiad gwasanaethau, lefelau cyflawni a chanlyniadau. Mae'r ddau yn cynnwys adborth - neu gynlluniau i gasglu adborth - gan ddefnyddwyr a darpar ddefnyddwyr y gwasanaethau a adolygwyd. Fodd bynnag, roedd yr adroddiad ar feddylfryd systemau yn llai llwyddiannus yn y maes hwn. Ychydig iawn o adborth a gafwyd neu a geisiwyd gan y sawl a dderbyniai'r ddau wasanaeth - cynnal a chadw adeiladau a digartrefedd - a ddefnyddiwyd fel cynlluniau peilot yn yr adolygiad. O ganlyniad, roedd y casgliadau a'r argymhellion yn yr adroddiad yn dibynnu gormod ar farn y rheolwyr a'r staff a oedd yn rhedeg y gwasanaethau.

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni'r dyletswyddau adrodd ar welliant sy'n ofynnol o dan y Mesur ond gallai gydymffurfio'n llawnach ag arweiniad gan Lywodraeth Cymru

65 Daeth fy Llythyr Asesiad Gwella ym mis Rhagfyr 2013 i'r casgliad, er i'r Cyngor gydymffurfio â'i ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur, nid oedd ei Adroddiad Perfformiad ar gyfer 2012-13 yn cydymffurfio cystal ag y gallai ag arweiniad Llywodraeth Cymru. Roedd hyn fwyaf amlwg yn y meysydd hynny lle nad oedd rhai o'r cynigion ar gyfer gwella adroddiadau perfformiad a gafodd eu cynnwys yn fy Adroddiadau a Llythyrau Gwella Blynyddol blaenorol wedi cael eu gweithredu'n llawn. Yn benodol:

- Nid oedd hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn 2011-12 yn cysylltu dadansoddiadau o ddata perfformiad yn gyson â'i amcanion gwella. Daeth fy Adroddiad Gwella Blynyddol 2013 i'r casgliad 'er y gwnaed rhywfaint o gynnydd yn y maes hwn, mae angen gwneud mwy'. Mae hyn yn wir o hyd. Roedd Adroddiad Perfformiad 2012-13 yn cynnwys amrywiaeth defnyddiol o wybodaeth am berfformiad ond nid oedd llawer ohoni, gan gynnwys dangosyddion perfformiad statudol allweddol a chenedlaethol, yn cysylltu'n ddigon clir ag amcanion gwella'r Cyngor.

- Nid oedd Adroddiad Perfformiad 2012-13 yn rhoi asesiad cwbl gytbwys o gyflawniad a pherfformiad y Cyngor yn erbyn ei amcanion gwella. Er bod crynodeb defnyddiol o gyflawniadau wedi'i gynnwys, prin oedd y wybodaeth am lithriant yn erbyn prosiectau arfaethedig neu am unrhyw feysydd o danberfformiad.

- Nid oedd Adroddiad Perfformiad 2012-13 yn rhoi darlun digon cyflawn o berfformiad y Cyngor. Er ei fod yn cynnwys crynodeb byr o ganlyniadau'r arolwg diweddaraf o ddinasyddion, nid oedd digon o wybodaeth o ffynonellau eraill gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau, canolfannau cyswllt, adolygiadau gwasanaethau a chymheiriaid, paneli craffu ac adroddiadau archwilio ac arolygu. Hefyd, prin oedd y defnydd o ddata meincnodi a chymharol.

- Nid oedd digon o wybodaeth fanwl am statws na chanlyniadau'r partneriaethau a'r mentrau cydweithredol lleol a rhanbarthol amrywiol y mae'r Cyngor yn rhan ohonynt. Er i Adroddiad Perfformiad 2012-13 gyfeirio at nifer o fentrau cydweithredol, prin oedd y wybodaeth am effaith y rhain wrth helpu i gyflawni'r amcanion gwella. Hefyd, prin oedd y wybodaeth ystyrlon am y ffordd y mae partneriaethau a mentrau cydweithredol yn gwella gwasanaethau a chanlyniadau i bobl Gwynedd.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â gofynion adrodd ariannol ond gallai atgyfnerthu ei reolaethau ariannol ymhellach

66 Rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ei farn ar gyfrifon y Cyngor ar 28 Tachwedd 2013. Mae Atodiad 3 yn rhoi mwy o fanylion.

# Roedd cynlluniau i gefnogi gwelliannau i wasanaethau'r Cyngor yn gadarn ar y cyfan ond byddent yn elwa ar wybodaeth am berfformiad sy'n well o ran ei hamrywiaeth, ansawdd a chyflwyniad

## Roedd Cynllun Gwella 2013-14 a'r amcanion gwella yn bodloni gofynion y Mesur

67 Nododd fy Llythyr Asesiad Gwella ym mis Medi 2013 fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliant o dan y Mesur. Gwnaeth y Cyngor gynnwys Cynllun Gwella 2013-14 (y Cynllun) yn ei Gynllun Strategol newydd ar gyfer 2013-17. Cyhoeddwyd y Cynllun ar wefan y Cyngor a darparwyd copïau caled mewn llyfrgelloedd, canolfannau hamdden ac yn swyddfeydd y Cyngor. Cafodd crynodeb o'r Cynllun ei gynnwys yng nghylchlythyr y Cyngor (Newyddion) a ddosbarthwyd i bob cartref yn y Sir.

68 Mae diwyg y Cynllun wedi gwella; mae nawr yn fwy cryno ac yn haws ei ddarllen. Er i nifer yr amcanion gwella a gafodd eu mabwysiadu a'u cynnwys yn y Cynllun gynyddu o 13 yn 2012-13 i 24 yn 2013-14, mae'r diwyg a'r strwythur gwell yn helpu'r darllenydd i ddeall heriau strategol y Cyngor yn well. Mae'r amcanion gwella wedi'u diffinio'n glir ac maent yn cydymffurfio â gofynion y Mesur.

69 Ymgynghorodd y Cyngor ag amrywiaeth o randdeiliaid cyn pennu'r amcanion gwella terfynol ar gyfer 2013-14. Ond, fel y gwelwyd dros y blynyddoedd blaenorol, roedd y cyfraddau ymateb yn amrywiol iawn. Mae'r Cyngor yn ymwybodol ei bod yn bwysig cynnwys rhanddeiliaid i raddau mwy wrth gynllunio gwelliant. Disgwylir y bydd gweithredu Ffordd Gwynedd yn gwella effeithiolrwydd prosesau ymgynghori yn y dyfodol.

## Mae'r diffyg cysondeb o ran amrywiaeth, ansawdd a chyflwyniad gwybodaeth am berfformiad yng Nghynllun Gwella 2013-14 yn ei gwneud hi'n anodd pennu graddau'r gwelliannau i wasanaethau y mae'r Cyngor am eu gwneud

70 Hefyd, nododd fy Llythyr Asesiad Gwella ym mis Medi 2013 fod diffyg cysondeb o ran data sylfaenol a mesurau perfformiad lefel uchel, seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer rhai o amcanion gwella'r Cyngor. Nid oedd unrhyw ddata sylfaenol, mesurau perfformiad na thargedau ar gyfer y naw amcan strategol yn y Cynllun. Er bod y data sylfaenol ac amrywiaeth ac ansawdd mesurau perfformiad a thargedau yn well na'r hyn a ddarparwyd mewn blynyddoedd blaenorol ar gyfer rhai o'r amcanion gwella, roeddent yn dal i fod ar ei hôl hi ar gyfer nifer fawr o rai eraill. Hefyd, roedd y modd y cyflwynwyd y categorïau gwahanol o fesurau perfformiad yn ddryslyd. Prin oedd y cysylltiad rhwng y mesurau hynny sy'n cyd-fynd â'r amcanion gwella ym mhrif gorff y Cynllun a'r 55 o fesurau perfformiad allweddol a'r 25 o ddangosyddion strategol cenedlaethol yn yr atodiadau.

71 Roedd y diffyg data sylfaenol, mesurau perfformiad a thargedau ar gyfer yr amcanion strategol a llawer o'r amcanion gwella yn golygu nad oedd maint uchelgais y Cyngor yn glir. Er enghraifft, roedd y mesurau perfformiad yn y Cynllun ar gyfer yr amcan gwella 'unioni cyfleoedd i grwpiau bregus o blant, pobl ifanc a theuluoedd' yn cynnwys:

- canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd;
- nifer y diwrnodau ysgol a gollwyd o ganlyniad i waharddiadau cyfnod penodol yn ystod y flwyddyn academaidd, mewn ysgolion cynradd ac uwchradd; a
- nifer y gwaharddiadau parhaol mewn ysgolion uwchradd.

72 Roedd y mesurau wedi helpu i ddangos pa gyfeiriad y mae'r Cyngor yn bwriadu ei ddilyn yn y meysydd penodol hyn er mwyn helpu i gyflawni'r amcan gwella cyffredinol. Fodd bynnag, heb gynnwys data sylfaenol - sydd ar gael yn hawdd ar gyfer pob un o'r tri mesur - a thargedau meintiol yn y Cynllun, nid oedd yn glir sut y byddai'r Cyngor yn gallu monitro cynnydd ac adrodd arno'n effeithiol a, lle bo angen, ymdrin â thanberfformiad. Bydd hefyd yn anodd i aelodau, dinasyddion a rhanddeiliaid eraill ddwyn y Cyngor i gyfrif am ei berfformiad yn erbyn yr amcan gwella.

## Er gwaethaf heriau sylweddol a pharhaus, mae'r Cyngor yn dal i reoli ei sefyllfa ariannol yn dda

73 Yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol ym mis Ebrill 2013, cafwyd cyfeiriadau cadarnhaol at gryfder arweinyddiaeth ariannol y Cyngor sydd wedi ymdrin yn dda â'r heriau cyllidebol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r Cyngor yn parhau i bennu a rheoli ei gyllideb yn dda ond mae bellach yn wynebu mwy o broblemau sylweddol yn dilyn newidiadau sylfaenol i'r hinsawdd ariannol.

74 Er gwaethaf setliad grant heriol iawn gan Lywodraeth Cymru, mae'r Cyngor wedi pennu cyllideb fantoledig ar gyfer 2014-15 sy'n cynnwys cynnydd o 3.9 y cant yn y dreth gyngor. Caiff y diffyg o £10.4 miliwn sy'n weddill ar ôl y cynnydd yn y dreth gyngor ei ariannu gan: addasiadau cyllidebol (£3.1 miliwn); arbedion a nodwyd yn flaenorol (£5.5 miliwn); a defnyddio balansau ac arbedion newydd (£1.8 miliwn).

75 Ar gyfer y cyfnod rhwng 2015-16 a 2017-18, a chan dybio y bydd y dreth gyngor yn cynyddu 3.5 y cant y flwyddyn, bydd angen £33.8 miliwn o arbedion pellach. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo barhau i ystyried pob opsiwn ac mae wedi nodi amrywiaeth o fesurau posibl dros y cyfnod sy'n cynnwys:

- cynnydd blynyddol o rhwng 3.5 a 5 y cant yn y dreth gyngor;
- pennu targed arbedion ar gyfer cyllidebau ysgolion sy'n cydnabod, er gwaethaf cyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru y dylid amddiffyn cyllidebau ysgolion, ei bod hi'n anodd cyfyngu'r arbedion sydd eu hangen i wasanaethau eraill;
- sicrhau enillion effeithlonrwydd o gamau i ad-drefnu llywodraeth leol;
- cynyddu arbedion effeithlonrwydd drwy sefydlu targedau gwahanol ar gyfer gwasanaethau; a
- datblygu rhaglen i bennu blaenoriaethau sy'n sicrhau bod unrhyw doriadau i wasanaethau yn cyd-fynd â blaenoriaethau pobl Gwynedd.

76 Mae gwariant cyfalaf o dan bwysau hefyd. O ganlyniad, nid yw cyllideb gyfalaf 2014-15 yn cynnwys unrhyw gynlluniau newydd. Caiff cynlluniau newydd o 2016-17 ymlaen eu hystyried ar ôl adolygu Strategaeth Asedau'r Cyngor.

77 Mae Swyddfa Archwilio Cymru wrthi'n ystyried iechyd ariannol awdurdodau, eu dulliau cyllidebu ac i ba raddau y maent yn cyflawni'r arbedion gofynnol, er mwyn rhoi sicrwydd bod awdurdodau yn ariannol gydnerth. Bydd y gwaith hwn yn ystyried p'un a oes gan awdurdodau drefniadau cadarn ar waith i reoli'r gostyngiadau cyllidebol sy'n eu hwynebu er mwyn sicrhau eu bod mewn sefyllfa ariannol sefydlog sy'n eu galluogi i barhau i weithredu yn y dyfodol agos. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar gyfnod cynllunio ariannol 2014-15 a chyllidebau 2013-14. Caiff yr adolygiad hwn ei gwblhau ar ddechrau 2014-15 a byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau yn ein cylch nesaf o waith asesu gwelliant.

## Mae’r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15

78 Ar sail y casgliadau a amlinellwyd yn adrannau blaenorol yr adroddiad hwn, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru o’r farn fod Cyngor Gwynedd yn debygol o fodloni gofynion y Mesur o ran gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Caiff yr asesiad gwella ei lywio gan asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Wynedd a Chyngor Gwynedd

## Y Cyngor

Roedd y Cyngor wedi cyllidebu gwariant refeniw gros o tua £293.6 miliwn ar gyfer 2013-14. Mae hyn yn cyfateb i tua £2,416 fesul trigolyn. £50 miliwn oedd cyllideb gyfalaf y Cyngor ar gyfer y flwyddyn.

Yn 2013-14, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D yw £1,069 y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu 3.5 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae 77 y cant o dai yn y bandiau treth gyngor A i D.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 75 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a'r defnydd a wneir o adnoddau. Mae aelodaeth wleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 37 Plaid Cymru
- 18 Annibynnol
- 14 Llais Gwynedd
- 4 Llafur
- 2 Democratiaid Rhyddfrydol

Prif Weithredwr y Cyngor yw Harry Thomas. Y Cyfarwyddwyr Corfforaethol yw Iwan Trefor Jones, Morwena Edwards a Dilwyn Williams.

## Gwybodaeth arall

Aelodau'r Cynulliad dros Wynedd yw:

- Alun Ffred Jones, Arfon, Plaid Cymru
- Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, Meirionnydd/Nant Conwy, Plaid Cymru

Yr Aelodau Seneddol dros Wynedd yw:

- Hywel Williams, Arfon, Plaid Cymru
- Elfyn Llwyd, Meirionnydd/Nant Conwy, Plaid Cymru

Am ragor o wybodaeth gweler gwefan y Cyngor yn www.gwynedd.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH Ffôn: 01286 672255.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol

Y Cynghorydd Dyfed Edwards - Arweinydd
Harry Thomas - Prif Weithredwr
Cyngor Gwynedd
Pencadlys
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd

Annwyl Gynghorydd Edwards a Harry

## Llythyr Archwilio Blynyddol

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r prif negeseuon sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudolo dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau ond mae mwy o le i atgyfnerthu ei reolaethau ariannol

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 27 Medi 2013, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon.

Nodwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon i aelodau o'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiadau ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 26 Medi 2013. Daeth fy adroddiadau i'r casgliad bod y Datganiadau Cyfrifon wedi'u paratoi i safon dda yn gyffredinol. Nodais un gwendid perthnasol yn eich rheolaethau mewnol a oedd yn berthnasol i'r Cyngor yn uniongyrchol ac yn ei rôl fel awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd. Nid oedd y data aelodaeth a ddarparwyd gan rai cyflogwyr, i'w defnyddio yn systemau'r gronfa bensiwn, yn gyfredol a gallai hyn gael effaith sylweddol ar y prisiad bob tair blynedd a'r prisiadau IAS19 blynyddol a ddarperir gan yr actiwari.

Yn ogystal â'r gwaith cynharach a wnaed gan yr adran bensiynau, a dynnodd sylw at y mater yn y lle cyntaf, rwyf wedi cael gwybod bod y Cyngor wedi parhau i wneud cynnydd da i wella ansawdd data aelodaeth ar draws Cyrff Cyflogwyr er mwyn sicrhau bod yr actiwari yn cael data cadarn.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Ar y cyfan, rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'u profi eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 27 Medi 2013.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2012-13 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodir yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

Yn gywir,

**Derwyn Owen**

Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig
28 Tachwedd 2013

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Gwynedd

## Amcanion gwella'r Cyngor

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag amcanion gwella penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn. Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ar gyfer 2013-14 yn ei Gynllun Strategol ar gyfer 2013-17 sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn www.gwynedd.gov.uk/cynllunstrategol. Maent fel a ganlyn:

### Plant a Phobl Ifanc

Codi safonau addysgol plant a phobl ifanc.

Unioni cyfleoedd i grwpiau bregus o blant, pobl ifanc a theuluoedd.

Gwella addasrwydd y gyfundrefn ysgolion.

Paratoi pobl ifanc yn well ar gyfer bywyd a gwaith.

### Gofal, Iechyd a Lles

Ymateb yn well i anghenion pobl fregus i sicrhau gwasanaethau gofal cynaliadwy.

Cynyddu gwaith ataliol ym maes gofal Oedolion a Phobl Hŷn.

Amddiffyn plant ac oedolion.

Cynyddu gwaith ataliol a thargedu anghydraddoldebau ym maes iechyd.

### Yr Economi

Cryfhau gwytnwch busnesau a chadw'r budd yn lleol.

Gwella ansawdd swyddi a lefelau cyflog.

Gwella mynediad i waith ac ymateb i rwystrau.

### Yr Amgylchedd

Hybu cyflenwad addas o dai ar gyfer pobl leol.

Lleihau allyriadau carbon.

Ymateb i fygythiadau newid hinsawdd.

Lleihau faint o wastraff sy'n mynd i'w dirlenwi.

### Cymunedau Cryf

Hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

Lleihau effaith tlodi ac amddifadedd.

Hybu cymunedau gwledig cynaliadwy.

Hybu balchder a chyfrifoldeb cymunedol.

### Diwylliant a Threfniadau Busnes y Cyngor

Hybu diwylliant drwy'r Cyngor cyfan o roi pobl Gwynedd yn ganolog i'n holl waith a'n penderfyniadau.

Ymgysylltu'n effeithiol a phobl Gwynedd a sicrhau eu cyfranogaeth a'u perchnogaeth o'r dyfodol.

Gwneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau a cheisio lleihau effaith toriadau ar bobl Gwynedd.

Manteisio ar 'faint' y Cyngor er lles pobl Gwynedd.

Lleihau'r galw ar wasanaethau drwy atal ac ymyrraeth gynnar.

## Hunanasesiad y Cyngor o berfformiad

Mae hunanasesiad y Cyngor o berfformiad yn ystod 2012-13 ar gael yn ei Adroddiad Perfformiad ar wefan y Cyngor www.gwynedd.gov.uk/perfformiad.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk